Addasiad o ddarn: (The Firework Display gan George Layton)
Y Sioe Tân Gwyllt

‘Mam, arian poced yw beth maen nhw’n ei alw fe, ontefe? Mae hwnna’n golygu arian allwch chi ei roi yn eich poced a’i wario. Os o’ch chi fod i’ roi e mewn cadw-mi-gei, bydden nhw wedi’i alw fe’n arian cadw. Ti’n treio dod mas ohoni – ‘na’r gwir, ontefe?’

Ro’n i wedi cael llond bol. Y gwir oedd bod mam yn treio dod mas o adael i mi gael tân gwyllt. Daeth hi draw ata i.

‘Paid â bod mor hy, grwt. ‘Styria ‘da pwy rwyt ti’n siarad, wnei di.’

Am eiliad, ro’n i’n meddwl ei bod hi’n mynd i roi clusten i mi.

‘Wel, hyd yn oed ‘swn i wedi cadw ‘bach o arian, fyddet ti ddim yn gadael i mi brynu tân gwyllt, na fyddet ti?’

Ddywedodd hi ddim byd.

‘Wel, faset ti, y?’

Dywedodd hi wrthyf am beidio â dweud ‘y’ oherwydd ei fod e’n anghwrtais. Dw i ddim yn meddwl ei fod e’n anghwrtais. Dim ond gair yw e, wedi’r cwbl.

"Wel, faset ti, Mam? Tase arian ‘da fi fy hunan, faset ti’n gadael i fi brynu tân gwyllt ‘da fe?’

‘O, gad dy swnian, da ti. Dwyt ti ddim yn cael tân gwyllt a dyna ddiwedd arni.’

Ond nid dyna’i diwedd hi, o bell ffordd. Ro’n i mo’yn tân gwyllt eleni ac ro’n i’n mynd i gael tân gwyllt eleni. Wedi’r cwbl, roedd plant dipyn iau na fi yn cael tân gwyllt. Wedyn pam na ddyliwn i?

‘Ar wahân i fod yn wastraff arian, maen nhw’n beryglus.’

Peryglus. Wir-yr, mae fy mam i mor hen-ffasiwn.

‘Mam, mae cyfarwyddiadau ar bob tân gwyllt. Dim ond i chi gynnau’r papur tanio glas a symud o’r ffordd, dydyn nhw ddim yn beryglus.’

Dechreuodd hi rygnu ymlaen am faint o bobl oedd yn cael eu cludo i’r ysbyty bob Noson Tân Gwyllt, a faint o blant oedd yn cael eu hanafu, a faint o goesau a breichiau oedd yn cael eu colli, a dweud pe bai’r holl dân gwyllt yn cael eu goruchwylio fel roedden nhw yn Ysbyty’r Plant, yna byddai cryn dipyn llai o ddamweiniau. Doedd dim taw arni. Ro’n i wedi clywed y cyfan o’r blaen.

‘Ond mi fydda i’n ofalus, Mam, rwy’n addo.
Plîs, gad i mi gael fy nhân gwyllt fy hunan.’

A dyna pryd ges i glusten.

Printed with kind permission of Longman Publishers.

Ffrwydron yw tân gwyllt
GAIR I GALL

Mewn cydweithrediad â
Fight for Sight
child accident prevention trust
dti
Department of Trade and Industry